# COFRESTR FABWYSIADU CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2024-2025

## Cyflwyniad

Mae’n bleser gennym rannu adroddiad blynyddol Cofrestr Fabwysiadu Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025. Lansiwyd Cofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC) ym mis Mehefin 2019, ac mae'n wasanaeth dod o hyd i deuluoedd ar-lein cwbl ddwyieithog. Mae'r Gofrestr yn defnyddio Link Maker, system ddiogel gyflym a hawdd ei defnyddio, sy'n ceisio darparu pariadau addas i blant â chynlluniau ar gyfer mabwysiadu a lleihau eu hamser aros. Yn ogystal â bod yn ddwyieithog, dyma'r unig system yn y DU sydd ar hyn o bryd yn cynnig mynediad uniongyrchol a reolir i broffiliau plant ar gyfer mabwysiadwyr.

O dan Gyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) (Diwygiad) 2019 cyfarwyddir awdurdodau lleol o fewn y mentrau cydweithredol rhanbarthol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol i atgyfeirio plant a darpar fabwysiadwyr i’r Gofrestr o fewn mis i benderfyniad yr asiantaeth ar blant neu gymeradwyaeth i fabwysiadwyr.

Y Gofrestr yw system Llywodraeth Cymru i gefnogi paru mabwysiadu, ac ers 2015 comisiynwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) i gynnal y gwasanaeth hwn ar gyfer asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru. Prif rôl y Gofrestr yw galluogi paru trawsranbarthol a thrawsasiantaethol lle nad oes pariad addas ar gael yn rhanbarth/asiantaeth y plentyn neu'r mabwysiadwyr ac ar gyfer plant a all fod yn aros yn hirach.

Mae'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod ymarferwyr yn atgyfeirio plant a mabwysiadwyr i’r Gofrestr o fewn yr amserlenni gofynnol, a'u bod yn parhau i ddefnyddio'r Gofrestr fel modd o ddod o hyd i deulu.

## Gweithgarwch y Gofrestr Fabwysiadu

Cafodd **273** o blant eu hatgyfeirio i’r Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â **244** o blant yn y cyfnod 2023/24 a **208** yn 2022/23. Mae'r cynnydd yn y niferoedd yn unol â chynnydd yn y Gorchmynion Lleoli a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn ac felly mwy o blant â chynlluniau mabwysiadu.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd **285** o blant ar y Gofrestr ar wahanol gamau o'r broses; roedd **155** o'r plant hyn yn aros heb unrhyw gysylltiadau posibl. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r un adeg y llynedd pan roedd **203** plant ar y Gofrestr gyda **99** plant yn aros. Mae nifer y plant

sy'n aros ar y Gofrestr dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn cynyddu'n raddol. Mae hyn oherwydd mwy o Orchmynion Lleoli yn cael eu caniatáu a gostyngiad yn nifer y mabwysiadwyr sydd ar gael. Mae rhai pant wedi bod yn aros yn hirach oherwydd anghenion cymhleth ychwanegol neu oherwydd eu bod yn rhan o grŵp brodyr a chwiorydd mawr.


Atgyfeiriwyd **108** o deuluoedd mabwysiadol i'r Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â **106** yn 2023/24 a **160** yn 2022/23. Ar 31 Mawrth 2025, roedd **113** o deuluoedd mabwysiadol ar y Gofrestr ar wahanol gamau o'r broses; gyda **56** ohonynt yn aros heb unrhyw gysylltiadau. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r un adeg y llynedd pan oedd **129** o deuluoedd ar y Gofrestr gyda **69** yn aros heb unrhyw gysylltiadau. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn gyson â gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n dod drwy'r broses asesu/yn cael eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod hwn. Mae mabwysiadwyr yn cael eu paru â phlant yn llawer cynharach a hynny sy'n gyfrifol am y gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n aros ar y Gofrestr i gael eu paru.

## Pariadau


### mewn Gofal


Mae data'r gofrestr yn dangos bod cyfanswm o **139*** o blant sy'n ar y Gofrestr wedi cael eu paru yn 2024/25 o'i gymharu â **162** sydd wedi cael eu paru yn 2023/24. O'r **139** o bariadau a wnaed eleni, roedd **35% (n49)** yn rhai a wnaed o ganlyniad i ddefnyddio'r Gofrestr fel ffordd o ddod o hyd i deulu, gyda'r gweddill yn cael eu paru trwy ddulliau eraill o ddod o hyd i deulu. Mae hyn wedi cynyddu ers y llynedd pan y gwnaed **23% (n37)** o'r pariadau trwy'r Gofrestr. Er bod nifer cyffredinol o bariadau'n llai eleni, mae nifer y pariadau a wnaed drwy'r Gofrestr wedi cynyddu, a da yw gweld bod ymarferwyr yn defnyddio'r Gofrestr i baru mwy o blant â theuluoedd mabwysiadol.

*Mae rhai pariadau'n cael eu cytuno o fewn y rhanbarth ac yn cael eu hychwanegu maes o law.





Mae'r graff isod yn darparu gwybodaeth am y plant sydd wedi'u paru. Mae'n dangos bod **43% (n21)** o'r plant a barwyd trwy CFC yn blant a allai orfod aros yn hirach am leoliad am eu bod yn rhan o grwp o frodyr a chwiorydd. Roedd gan **53% (n26)** 1 angen ychwanegol neu fwy a nodwyd ac roedd **16% (n8)** dros 5 mlwydd oed. Er bod y niferoedd yn is eleni mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y Gofrestr yn parhau i weithio'n dda i nodi pariadau ar gyfer y plant hynny a fyddai'n aros yn hirach.




## Mabwysiadwyr

Mae cyfanswm o **81** o deuluoedd mabwysiadol sy'n hysbys i'r Gofrestr wedi'u paru yn 2024-25 ac roedd **26%** ohonynt **(n21)** wedi'u gwneud yn uniongyrchol drwy CFC, gyda'r pariadau eraill yn cael eu gwneud o ganlyniad i weithgarwch arall i ddod o hyd i deulu. Mae hyn yn cymharu â **45** o darpar fabwysiadwyr a barwyd yn 2023-24 y cafodd **29%** ohonynt **(n13)** eu paru'n uniongyrchol drwy'r Gofrestr. Mae'r data'n dangos bod ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio'r Gofrestr fel ffordd o ddod o hyd i deulu i plant ac i fabwysiadwyr.




## Digwyddiadau dod o hyd i deuluoedd

Yn rhan o swyddogaeth paru'r Gofrestr, cynhaliodd Tîm Cofrestru Fabwysiadu Cymru un digwyddiad proffilio ar-lein, un Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu a Diwrnodau Cyfnewidfa Fabwysiadu yn 2024-25. Roedd y digwyddiadau hyn i ddod o hyd i deuluoedd yn cynnwys plant o bob rhan o Gymru sydd wedi bod yn aros hiraf, llawer ohonynt yn grwpiau o frodyr a chwiorydd neu ag anghenion ychwanegol cymhleth. Gwahoddwyd mabwysiadwyr o bob rhan o Gymru i fynd i'r digwyddiadau hyn.

Mynychodd llai o fabwysiadwyr y digwyddiadau hyn nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd bod llai o fabwysiadwyr yn aros. Anogwyd rhanbarthau ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol i gyfeirio cymaint o'u teuluoedd i fynychu'r digwyddiadau hyn â phosib er mwyn parhau i'w cynnal, ac i deuluoedd gael eu hadnabod ar gyfer plant a oedd yn aros i gael eu mabwysiadu.

### Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu

Ar y cyd â Coram BAAF, bu CFC yn cynnal Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu ar y 29 Mehefin 2024 yng Nghaerdydd. **27** atgyfeiriwyd plant gyda **23** plant yn mynychu'r digwyddiad gyda'u gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol. Roedd **14** o fechgyn a **13** o ferched, gyda **10** o'r plant yn rhan o grŵp brodyr a chwiorydd. Roedd gan lawer o'r plant anghenion cymhleth ychwanegol. Cafwyd cyfanswm o **15** o ddatganiadau o ddiddordeb i **10** o'r plant a gwnaethpwyd **3** o gysylltiadau llwyddiannus (cyfradd baru o 20%). Y gyfradd baru gyfartalog yw 25%* ar Ddiwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu yn Lloegr. Mae hyn felly yn dangos cymhariaeth ffafriol i Gymru, gan fod digwyddiadau yn Lloegr yn tueddu i fod yn llawer mwy gyda niferoedd uwch o blant a mabwysiadwyr yn mynychu yn unol â'r angen. * Coram_Adoption-Activity-Days_Impact-Report_DIGITAL.pdf

Derbyniodd y digwyddiad lawer o adborth cadarnhaol gan fabwysiadwyr, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol a oedd yn teimlo bod y diwrnod yn cael ei gynnal yn dda ac yn werth chweil. Dyma enghraifft o'r adborth a gawsom yn dilyn y digwyddiad:





*“Mae'r diwrnod gweithgareddau yn rhoi cyfle i deuluoedd a phlant fel ei gilydd na fyddent yn gallu eu cael unrhyw le arall. Roedd gweld y plant mewn person a siarad â'u gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol mewn lleoliad hamddenol yn werth y byd.” – Mabwysiadwr*

## Digwyddiad Proffilio Ar-lein

Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad proffilio ar 22 Hydref 2024. Roedd hwn yn ddigwyddiad byw a gynhaliwyd ar-lein trwy TEAMS. Roedd y digwyddiad yn cynnwys proffiliau fideo **17** o blant a oedd yn dal i aros ledled Cymru (9 o blant unigol, 2 grŵp o 2 o frodyr a chwiorydd ac 1 grŵp o 3 o frodyr a chwiorydd). Arweiniodd y digwyddiad hwn at **2** o fynegiadau o ddiddordeb, er na wnaed unrhyw gysylltiadau llwyddiannus y tro hwn ar ôl y digwyddiad.

## Diwrnod Cyfnewidfa Fabwysiadu

Cynhaliodd tîm y Gofrestr Ddiwrnod Cyfnewid Mabwysiadu ar y 26 Mawrth 2025 yng Nghaerdydd. Nid yw tîm CFC wedi cynnal Diwrnod Cyfnewidfa ers 2020 oherwydd pandemig Covid 19. Mewn ymgynghoriad â'r Rhanbarthau a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol teimlwyd y byddai digwyddiad mewn person yn fwy buddiol na chynnal digwyddiad ar-lein arall. Gwahoddwyd darpar fabwysiadwyr i fynychu'r digwyddiad lle gallent gwrdd â chwilwyr teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol o bob rhan o'r 5 Rhanbarth. Cafodd cyfanswm o **97** o blant o bob cwr o Gymru eu proffilio yn y digwyddiad hwn. Daeth **14** o deuluoedd a mynegodd **20** ddatganiadau o ddiddordeb mewn **17** o blant. Mae rhai o'r cysylltiadau hyn yn dal i gael eu hystyried.



## Cyfarfodydd Dod o Hyd i Deuluoedd

Fforwm Rheolwyr ac Ymarferwyr CFC

Mae Tîm CFC yn cwrdd bob chwarter gyda rheolwyr ac ymarferwyr ar draws 5 Rhanbarth Mabwysiadu Cymru a'r 2 AMG. Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer digwyddiadau dod o hyd i deuluoedd, rhannu proffiliau plant sy'n aros a thrafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â dod o hyd i deuluoedd o safbwynt y Gofrestr neu ranbarth/AMG. Mae'r defnydd o Link Maker hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd hyn ac mae unrhyw faterion yn cael eu hadrodd yn ôl i Link Maker.

Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Mae CFC yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd i gynorthwyo gyda'r plant hynny ar y gofrestr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio i'r gwasanaeth, yn enwedig y plant hynny sydd wedi aros, neu sy'n debygol o aros, 9+ mis i gael lleoliad.

Cyfarfod Cofrestr y DU/Protocol Rhyng-gofrestrau

Mae CFC wedi datblygu perthynas weithio gadarnhaol gyda Thimau'r Cofrestrau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag Adoption England. Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter, cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 7 Ionawr 2025. Cynhelir trafodaethau ynghylch arferion gweithio cyfredol ym mhob un o'r 4 ardal gyda phwyslais ar rannu syniadau ac arferion da.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd gweithdy ysgrifennu proffil ar y 15 Mai 2024 i ymarferwyr sy'n gweithio ym maes mabwysiadu gyda'r nod o wella ansawdd proffiliau ysgrifenedig plant a mabwysiadwyr. Mynychodd 9 aelod o staff yr hyfforddiant hwn.

## Link Maker

Mae CFC yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â Link Maker bob 6 wythnos i drafod datblygu'r gwasanaeth a datrys unrhyw faterion neu ymholiadau. Cynhelir cyfarfodydd monitro contract ddwywaith y flwyddyn.

Cynhaliwyd hyfforddiant gloywi i staff ar ddefnyddio'r Gofrestr/Link Maker Cyswllt ar 8 Mai, 3 Gorffennaf, 25 Medi a 4 Rhagfyr 2024. Mynychodd 24 aelod o staff o bob rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol dros y 4 diwrnod hwn.

## Symud ymlaen…

Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26:

- Bydd tîm CFC yn parhau i flaenoriaethu gweithio'n agos gyda'r rhanbarthau a'r AMGau i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau i'r Gofrestr ar adeg y penderfyniad/gymeradwyaeth, a sicrhau bod data'r Gofrestr yn cael ei gadw'n gywir ac yn gyfredol.
- Bydd hyfforddiant Cofrestr/Link Maker yn cael ei gynnig i ymarferwyr a rheolwyr trwy gydol 2025, er mwyn sicrhau bod prosesau cywir yn cael eu dilyn ac i atgyfnerthu arfer da wrth ddod o hyd i deulu.
- Cynhelir gweithdy ysgrifennu proffil ym mis Hydref 2025, i wella ansawdd a chysondeb proffiliau ysgrifenedig ar gyfer plant a mabwysiadwyr.
- Mae Diwrnod Gweithgaredd Mabwysiadu wedi'i drefnu ar 28 Mehefin 2025 yng Nghaerdydd. Bydd digwyddiad arall, naill ai Diwrnod Gweithgareddau Mabwysiadu arall neu Ddiwrnod Cyfnewidfa, yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Bydd tîm CFC yn parhau i gyfarfod â Link Maker yn rheolaidd i drafod datblygu a gwella gwasanaethau. Bydd cyfarfodydd monitro contract ddwywaith y flwyddyn yn cael eu cynnal.
- Parhau i fonitro plant ar y Gofrestr am 9 mis a mwy er mwyn sicrhau bod rhanbarthau'n cael eu hysgogi mewn ffordd amserol i ystyried atgyfeirio i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.

*"Mae'r diwrnod gweithgareddau yn rhoi cyfle i deuluoedd a phlant fel ei gilydd na fyddent yn gallu eu cael unrhyw le arall. Roedd gweld y plant mewn person a siarad â'u gofalwyr maeth a'u gweithwyr cymdeithasol mewn lleoliad hamddenol yn werth y byd."* - Mabwysiadwr